## STEFFAN ap OWEN yn parhau hanes

# Y Wasg yn Ffestiniog

HEB FYND i fanylion, mynd i ddŵr poeth gyda rhyw ysgrif 'athrodus' yn *Y Rhedegydd* a wnaeth i W. Lloyd Roberts roi'r gorau i'w fusnes argraffu yn 1906. Gwerthwyd y swyddfa, a'r cyfan oll ganddo, i Lewis Davies (*Y Gloch*) a John Daniel Davies, y naill o 'Stiniog a'r llall o Rosllannerchrugog.

Yn dilyn y gwerthiant sefydlwyd 'Davies a'i Gwmni' (neu 'Davies and Co.', ar adegau) yn Swyddfa'r Rhedegydd. A rhag ofn i rywun feddwl yn wahanol, roedd y ddau ŵr yma, sef y pwrcaswyr, eisoes â chryn brofiad yn y byd argraffu cyn mentro gyda gwasg *Y Rhedegydd* ond nid oeddynt yn perthyn i'w gilydd.

* * * *

CRYBWYLLAIS yn yr ysgrif o'r blaen mai am ryw dair blynedd y parhaodd y bartneriaeth hon rhwng y ddau Davies. Ail-afaelodd Lewis Davies yn ei fusnes argraffu ei hun wedyn. Mae'n rhaid fod J. Daniel Davies wedi ei eni i fod yn argraffwr, ond fel y nododd W. H. Reese, un o feirdd 'Stiniog amdano:

> **'yn ddi-ddadl, cymeriad aml-ochrog iawn oedd — Pregethwr, Cenhadwr gyda'r Bedyddwyr Albanaidd, Bardd, Emynwr, Traethodwr, Darlithydd a Golygydd — a dim ond enwi ond yr ychydig o'r pethau hynny y cymerodd ran ynddynt ym mywyd yr ardal.'**

* * * *

YN YSTOD ei yrfa faith fel perchennog Swyddfa'r Rhedegydd, a golygydd y papur, ymddangosodd peth wmbreth o wahanol gyhoeddiadau o'i wasg. Byddai eu rhestru i gyd yma yn cymryd gormod o le.

Eto, mae'n gofyn crybwyll rhai ohonynt. Yn 1909 ymgymerodd y wasg ag argraffu misolyn Cymraeg y Bedyddwyr Albanaidd, sef *Yr Ymwelydd*. Bu W. Humphreys (Elihu), tad-yng-nghyfraith J. D. Davies yn ei olygu am flynyddoedd, a bu Lewis Davies (Y Gloch) yn ei argraffu iddo am y deng mlynedd blanorol. Argraffwyd *Yr Ymwelydd* am lawer blwyddyn yno — yn sicr, hyd at 1948, y flwyddyn y bu J. D. Davies farw.

Yn 1914 cafodd y wasg y gwaith o argraffu cyhoeddiad newydd yr Ysgol Ganolraddol (Central School), sef *Blodau'r Grug*. Dyma gylchgrawn cyfarwydd i lawer cyn-ddisgybl Ysgol Sir Ffestiniog (Ysgol y Moelwyn, bellach), oherwydd erys yr un enw hyd heddiw ar gyhoeddiad yr ysgol.

Yn 1926 daethpwyd â chylchgrawn o'r enw *Plygain* allan ar gyfer plant yr Ysgol Ganol. Golygid hwn gan J. Ellis Williams (y llenor a'r dramodydd) a oedd yn athro yn yr ysgol. Ni chredaf i'r cylchgrawn hwn barhau'n hir iawn.

Flynyddoedd wedyn, ym mis Tachwedd 1939 dechreuwyd argraffu papur newyddion newydd yno, sef *The South Caernarvon and Merioneth Leader (Yr Arweinydd)*. Cyhoeddid hwn gan H. Thomas, 120 Stryd Fawr, Porthmadog. Credaf i'r papur newydd hwn ddod i ben tua mis Awst 1946.

Ar wahân i'r rhain, cyhoeddwyd llawer o lyfrau dros y blynyddoedd gan y wasg. Dyma rai o blith y lliaws: *Hanes Ysgolion Sabbothol Dosbarth Ffestiniog*, (1906), Gol. Parch. D. Hoskins ac O. Jones, (dyma un o'r cyfrolau mwyaf trwchus a argraffwyd gan Swyddfa'r Rhedegydd. Cynhwysa 331 o dudalennau); *Arwriaeth John Anthony*, (1908), Evan Rowlands (Ap Llechwedd); *Canrif o Hanes yr Achos Methodistaidd yn Nhanygrisiau 1809–1909*, (1909), David Owen Hughes, (D.S.: cyoeddwyd y tri llyfr uchod yn ystod partneriaeth y ddau Davies); *Hen Yd y Wlad*, (1911), J. Lloyd Jones (Llyfrbryf Meirion); Ardudwy a'i Gwron, (1914), David Davies (Dewi Eden); *The Slate Industry of N. Wales – Deputation to the Rt. Hon. D. Lloyd George . . . Cricieth, May 30, 1914*, (1914); *Hanes Cychwynol Elgwysi Bedyddiedig Fforddlas, Llansannan a Llanelian*, (1915), R. P. Jones (Perorfryn); *Y Diemwnt Du a Chaniadau eraill*, (1917), Glyn Myfyr; *Pryddest Goffa i 12 o Fechgyn Carmel, Tanygrisiau, A syrthiodd yn y Rhyfel Mawr*, (1920), Lewis Moelwyn Jones; *Gorsedd Grucyn*, (1921), Thomas Williams; *Mam yr Iesu*, (1930), Parch. W. Pari Huws; *Mai*, awdl gan Gwilym Deudraeth (1935); Dathliad Canmlwyddiant Eglwys Bethel Tanygrisiau 1838–1938; Gwrid y Machlud, (1941), Ap Alun Mabon (Gol. J. W. Jones); *Llinell neu Ddwy*, (1942), Ioan Brothen (Gol. J. W. Jones); *Medi'r Corwynt — Cerddi Rhyfel 1938–1943*, (1943), W. H. Reese; *Ein Pentra Ni*, (1947), John O. John; *Dŵr y Ffynnon*, (1948), Rolant Wyn (Gol. J. W. Jones); *Cwningen Fach*, (1950), J. Ellis Williams; *Y Chwarelwr*, (1952).

Prin fod y rhestr yn gwneud chwarae teg â'r holl gynnyrch a ymddangosodd o wasg Y Rhedegydd yn ystod y deugain mlynedd, o'r bron, y bu ym mherchenogaeth J. D. Davies. Gresyn hefyd yw gorfod cofnodi mai hon oedd y wasg ddiwethaf o weisg 'Stiniog i argraffu newyddiadur lleol, cylchgronau, a llyfrau darllen. Oherwydd costau argraffu, a chyflogau'r staff wedi dyblu, bu'n rhaid rhoi'r gorau i argraffu yma'n gyfan gwbl yn 1955.

* * * *

YN NECHRAU 1899 rwy'n credu yr agorodd Lewis Davies ei agraffdy yn gyntaf, yn yr Hen Goparet (Co-operative) yn Heol yr Eglwys, sef lle mae'r Clwb Chwarae Sboncen heddiw. Yn ddiweddar, deuthum ar draws y nodyn hwn ganddo yn *Yr Ymwelydd* — misolyn Cymraeg y Bedyddwyr Albanaidd — am Ionawsr 1899:

> *At Ddarllenwyr 'Yr Ymwelydd' ac eraill — Dymuna Lewis Davies, Argraffydd, Llyfrwymydd &c Hysbysu ei fod yn barod i ymgymeryd a phob math o waith Argraffu, a gwneir ef yn y modd goreu ac am y prisiau mwyaf rhesymol, gan fod ganddo y Peirianau a'r Llythrenau mwyaf diweddar, ac y mae wedi cael profiad helaeth mewn rhai o brif swyddfeydd Argraffu Cymru a Lloegr.*

Ar wahân i argraffu'r cylchgrawn *Yr Ymwelydd*, 1899–1909, mentrodd Lewis Davies ddod â newyddiadur allan o'i wasg yn 1903. Enw ei bapur newydd oedd *Y Gloch*, a dyna sut yr aethpwyd i alw L.D. yn 'Lewis Davies Gloch'. Ceisiodd *Y Gloch* ei orau i sefydlu lle iddo'i hun gyda'r ddau bapur lleol arall a geid yma y pryd hynny, sef *Y Rhedegydd*, a'r *Glorian* — a ddaeth o wasg Thomas Williams yn 1899 — ond methu a wnaeth. Y canlyniad fu uno *Y Glorian* â'r *Rhedegydd* yn 1906.

Mae'n rhaid bod y ddwy wasg, sef gwasg *Y Rhedegydd* a gwasg Lewis Davies yn argraffu'n annibynnol ar rai adegau yn ystod eu partneriaeth, 1906–1909, oherwydd cyn iddo fynd yn ôl ar ei liwt ei hun, daeth Lewis Davies â phapur newydd o'r enw *Yr Aelwyd* allan yn 1908.

Mae'n rhaid mai yn sgîl hyn y dechreuwyd galw'r argraffdy yn 'Swyddfa'r Aelwyd', Co-operative Buildings. Gyda llaw, dros y ffordd i'r argraffdy, ar yr ochr isaf i'r lle y byddai Siop Maypole, roedd gan L.D. siop o'r enw 'Shop Y Gloch', sef yn rhif 11 Heol yr Eglwys, ac yma y gwerthid cyfran dda o'r papurau, yn ogystal â llawer o gynhyrchion eraill y wasg.

Cafodd *Yr Aelwyd* fwy o argraff ar y darllenwyr a pharhaodd dipyn mwy na'r *Gloch* gyntaf, ond fel llawer truan arall yng nghyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd yntau ddyrnod farwol yn 1916.

* * * *

NID *Yr Aelwyd* oedd yr unig bapur newydd a argraffid ganddo yn y cyfnod hwn. Dechreuodd L. Davies argraffu *Y Gwyliedydd Newydd* — Papur Crefyddol a Chymdeithasol — dros y cyhoeddwyr ar Ionawr 4, 1910. Cyfeiriad y rhifynnau cynharaf o'r papur oedd 'Glandwr Artistic Printing Works, High Street, Blaenau Ffestiniog' — cyfeiriad nad wyf yn sicr ohono. Beth bynnag, ymhen dwy flynedd wedyn deuai'r papur o swyddfa'r *Gwyliedydd Newydd*, Blaenau Ffestiniog.

Ar hyn o bryd, nid oes gennyf amcan beth oedd ei gylchrediad, na phwy a oedd yn ei olygu, ond gwn i'r rhifyn olaf o'r papur ddod o wasg Lewis Davies ar ddydd Mercher, Ionawr 19, 1921. Symudwyd ef drachefn i wasg yn Nolgellau.

Ymhen ychydig amser ar ôl iddo orffen argraffu'r *Gwyliedydd Newydd* mentrodd unwaith yn rhagor i ddod â newyddiadur arall o'i wasg. Ac unwaith eto, dewisodd yr enw *Y Gloch* arno. Ond yn wahanol i hanes ei 'Gloch' gyntaf, cafodd yr ail *Gloch* fwy o lwyddiant o lawer.

Cododd y gwerthiant yn ddigon uchel iddi 'ganu'n hapus' o wythnos i wythnos am lawer blwyddyn. Fel llawer papur arall, byddai'r *Gloch* a'r *Aelwyd* yn cynnwys straeon digrif a throeon trwstan ar eu tudalennau. Yn wir, mae'n anodd peidio â chynnwys yr enghraifft ganlynol a ymddangosodd yn y golofn 'Walet Harri William' yn *Yr Aelwyd* am Ragfyr 3, 1913:

> *Gŵr gweddw o Tanyclogwyn, Blaenau Ffestiniog gafodd golled ddirfawr y dydd o'r blaen. Berwodd sosbenad o datws, ac wedi digoni ei hunan, cadwodd y gweddill hyd dranoeth yn y pobty. Pan aeth i wledda arnynt dranoeth, er ei syndod canfyddodd ei fod wedi ychwanegu y gath at y tatws, a thynodd hi allan yn gorff gelain. Maent yn dweyd ei fod yn awr yn chwilio am gath arall fel partner byw.*

Ceir llawer o straeon tebyg i'r uchod ynddynt. Pwy a ŵyr, efallai y daw cyfle i mi adrodd rhai ohonynt rywdro yn y dyfodol.

Credaf mai rywdro yn 1936 y canodd *Y Gloch* am y tro olaf, fel petae, ac i'r Blaenau fynd yn ôl yn dref un papur lleol. Yn wir, ar ôl ymadawiad *Y Gloch*, ychydig iawn o les ar ei fywyd a gafodd Lewis Davies ei hun. Bu farw ar Fai 25, 1938, yn 66 oed.

Ar wahân i'r papurau newydd a'r amrywiaeth a argraffwyd ganddo, cyhoeddwyd amryw o lyfrau a mân-lyfrau o bwys gan ei wasg hefyd, megis: *Telynau'r Wawr* (1899), Bryfdir; *Hanes y Bedyddwyr Neilltuol ym Mhlwyf Ffestiniog* (1900), Lewis Davies (yr argraffwr ei hun); *Rhosynnau'r Glyn* (1901), Glyn Myfyr; *Diffygion y Cymeriad Cymreig* (1902), D. R. Jones; *Odlau'r Plant* (d.d.), W. O. Jones (Eos y Gogledd); *Dolwyddelan a'i Chymeriadau Hynod* (1924), E. C. Roberts a J. Parry (Gol. gan yr Athro J. Lloyd Jones); *Hanes Annibyniaeth ym Mhlwyf Ffestiniog* (1927), David Williams.

*(I'w barhau)*